

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**001 - Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn
Cynhyrchion Amaethyddol (Gwin) (Diwygio etc) 2021**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 10 Mawrth 2021

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydy
Gweithdrefn:	Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol"
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio yn Senedd y DU i ben	Amherthnasol
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol"
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	24 Mawrth 2021
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	23 Mawrth 2021

Cefndir

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU ar 9 Mawrth 2021 yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Crynodeb

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun dynodiadau daearyddol ar gyfer gwin. Mae'r angen am y cywiriad yn deillio o wall a wnaed mewn offeryn statudol blaenorol a wnaeth ddiwygiadau o ran gweithredadwyedd i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir y byddent yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau yn nodi iddynt gael eu gwneud o dan weithdrefn frys o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), sy'n golygu y cawsant eu gwneud heb i fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gael ei gosod gerbron dau Dŷ

Senedd y DU a'u cymeradwyo ganddynt. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i nodi bod y weithdrefn hon wedi'i dilyn oherwydd bod angen i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted â phosibl i sicrhau ymarferoldeb priodol y cynllun dynodiadau daearyddol ar gyfer gwin a sicrhau bod y dynodiadau daearyddol perthnasol yn cael eu diogelu o dan gyfraith ddomestig yn unol â'r Cytundeb Ymadael â'r UE.

Mae dynodiadau daerdyddol yn ffurf ar ddiogelu eiddo deallusol ar gyfer enwau bwyd, diod a chynhyrchion amaethyddol y gellir priodoli eu rhinweddau neu eu nodweddion i'r rhanbarth neu'r ardal lle y cânt eu cynhyrchu a/neu'r dulliau traddodiadol a ddefnyddir i'w cynhyrchu. Mae enghreifftiau o'r Deyrnas Unedig yn cynnwys: Wisgi Albanaid, gwin o Loegr a Chymru, cig oen o Gymru a llyswennod Lough Neagh. Mae statws dynodiad daearyddol yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod cynhyrchion yn ddilys ac mae'n galluogi cynhyrchwyr i hyrwyddo a marchnata eu cynhyrchion yn well.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 12 Gorffennaf 2021, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod amaethyddiaeth a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn faterion datganoledig ac nad ydynt yn gysylltiedig â'r materion a ddargedwir o dan unrhyw bennod yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae'r datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau nad yw Llywodraeth y DU yn cytuno, a'i bod o'r farn bod pwnc y Rheoliadau yn un a ddargedwir. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y swyddogaethau uchod yn ymwneud yn uniongyrchol ag amcanion y Cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd i wella cynhyrchiant y sector amaethyddol a thrwy hynny wella cystadleurwydd cynnyrch cynradd yn y farchnad. Mae amaethyddiaeth a'r PAC o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (hynny yw, mae'r materion hyn wedi'u datganoli). Yn unol â thelerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), dylid bod wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gosod y Rheoliadau.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i fynegi eu barn, sef nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU yn unig benderfynu ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar feysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.